Prifysgol Abertawe
Swansea University

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Dyframaethu ar gyfer y Dyfodol
hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Dyframaethu

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa
Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Carai tîm PP4SD Prifysgol Abertawe ddiolch i'r holl bobl sydd wedi cyfrannu eu hamser a'u profiad i baratoi'r Gweithlyfr hwn. Carem ddiolch yn enwedig i'r SMEs i gyd sydd wedi rhoi eu hamser gwerthfawr a gwybodaeth sydd ar adegau yn sensitif i'n helpu ni i sicrhau bod y cynnwys yn gywir, yn berthnasol ac yn amserol, ac a ddaliodd i'n helpu trwy gynnig adborth yn ystod y diwgyddiadau hyfforddiant arbrofol. Carem ddiolch hefyd i'n partneriaid, a fynychodd gyfarfodydd ymgynghorol yn rheolaidd trwy gydol y prosiect i roi mewnbwn gwybodus inni mewn perthynas â diwydiant a hyfforddiant, ac a'n helpodd ni i ddod i gysylltiad ag SMEs yn eu diwydiant: Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Cymdeithas Brithyllod Prydain, Coleg Sir Gâr, Lantra, Coleg Sir Benfro a PP4SD y DU. Ac yn olaf rhaid yw mynegi ein diolchgarwch i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ddarparu cymorth y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd trwy ei Chronfa Manteisio ar Wybodaeth, a thrwy hynny sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cael eu datblygu'n brydlon a bod y defnyddiau'n dod yn eiddo i'r cyhoedd.

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Mae rhagor o gopïau o'r Llawlyfr ar gael yn Gymraeg a Saesneg oddi wrth dîm PP4SD Prifysgol Abertawe (manylion cyswllt ar y clawr cefn). Mae wedi'i gynnwys hefyd ar y crynoddisg sy'n dod gyda'r Gweithlyfr, a gellir ei lawrlwytho hefyd o www.pp4sd.org.uk

Datblygwyd, ysgrifennwyd a rhoddwyd ar brawf gan:
PP4SD y DU – John Baines, Jimmy Brannigan a Glenn Strachan
PP4SD Prifysgol Abertawe – Yvonne Jones, Christine Lloyd, Larch Maxey a Jan Morgan.

Cyfieithwyd o Saesneg gan: CymruLingua 01792 896171.

Dyluniwyd gan: Ridler Webster Cyf. 01792 582100/101.

Argraffwyd y Gweithlyfr hwn ar basbord a phapur sydd wedi cael eu cannu trwy broses Ddi-Glorin Elfennol (ECF). Argraffwyd gan Zenith Media 029 20 811020.

Cyhoeddwyd yn 2008 gan Brifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP Y Deyrnas Unedig.

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Lantra

Dyframaethu ar gyfer y Dyfodol
hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Dyframaethu

Amcanion y Gweithlyfr

Cynlluniwyd y Gweithlyfr hwn i helpu unigolion sy'n gweithio mewn mentrau Dyframaeth bach a chanolig eu maint (SMEs/BBaCh) i feddwl am ymgorffori egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu gweithgareddau busnes o ddydd i ddydd. Distylliad ydyw o raglen hyfforddiant undydd PP4SD a roddir gan hwylusydd, wedi'i haddasu at gael ei defnyddio gan unigolion. Mae'n anelu at unig fasnachwyr, neu reolwyr SMEs, sy'n awyddus i ymgyfarwyddo ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy a darganfod ei botensial er lles eu busnes. Efallai y bydd unigolion am ymuno hefyd â rhaglen undydd wedi'i hwyluso, neu hwyluso eu diwrnod hyfforddiant eu hunain ar gyfer eu cydweithwyr neu eu cleientiaid. Nodwch fod dealltwriaeth pobl o ddatblygiad cynaliadwy ac o sut i'w gymhwyso at sefyllfa fusnes gymaint yn well pan ddarperir rhaglen wedi'i hwyluso, wrth i gymheiriaid â gwahanol bersbectifau a phrofiadau gyfnewid eu sylwadau.

Fe fydd y Gweithlyfr yn eich galluogi i ddod yn gyfarwydd â chynnwys y cwrs undydd ac asesu ei botensial ar gyfer eich sefyllfa chi. Mae'r defnyddiau a'r cyfarwyddyd fydd eu hangen ar gyfer y rhaglen undydd i'w cael ar y crynoddisg amgaeëdig, neu efallai y carech chi gysylltu â thîm PP4SD Prifysgol Abertawe i ymuno â rhaglen wedi'i hwyluso neu i ofyn i hwylusydd eich helpu gyda chyfarfod hyfforddiant ar gyfer eich grŵp.

Am y Gweithlyfr

Mae rhaglen hyfforddiant y Gweithlyfr yn seiliedig ar ddull gweithredu sefydlog PP4SD, sy'n anelu at helpu proffesiynolion i fagu'r cymhwysedd a'r hyder i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu harferion proffesiynol o ddydd i ddydd. Gellir cael mwy o wybodaeth am ddull gweithredu PP4SD ar y crynoddisg amgaeëdig neu ar wefan UK PP4SD y DU (www.pp4sd.org.uk). Yn y Gweithlyfr hwn, ac ar gyfer y rhaglen hyfforddiant undydd lawn, wedi'i hwyluso y mae'r Gweithlyfr yn ei chyflwyno, mae'r dull gweithredu wedi cael ei addasu yn unol ag anghenion pobl mewn cwmnïau bach a chanolig eu maint (SMEs) sy'n gweithio ym maes Dyframaeth.

Sut i ddefnyddio'r Gweithlyfr

Mae'r Gweithlyfr wedi cael ei gynllunio'n ofalus i'ch galluogi i raddol ddatblygu eich dealltwriaeth eich hun o ddatblygiad cynaliadwy, fesul cam, wrth ichi weithio'ch ffordd trwy ei dudalennau fydd yn peri ichi feddwl. Fe ofynnir ichi edrych ar luniau, meddwl am syniadau, meddwl am eich busnes ac am yr hyn y mae pobl eraill yn eich maes yn ei wneud (a pham). Erbyn diwedd rhaglen y Gweithlyfr, fe fydd gennych chi sylfaen i Gynllun Gweithredu strwythuredig, ymarferol, sy'n seiliedig ar egwyddorion sefydlog datblygiad cynaliadwy ac yn barod i gael ei ddefnyddio ar unwaith yn eich busnes.

Mae copïau ychwanegol o'r Gweithlyfr ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn rhad ac am ddim oddi wrth dîm Prifysgol Abertawe fel copi caled, tra bo stociau ar ôl.

Mae Gweithlyfrau eraill ar gael ar y crynoddisg i unigolion ar gyfer unigolion mewn SMEs sy'n gweithio ym meysydd Rheoli Pysgodfeydd, Rheolaeth Amgylcheddol a Gweithgynhyrchu Amaethyddol.

Diogelu'r Dyfodol

Hyfforddiant mewn Datblygiad Cynaliadwy i'r sector Dyframaeth

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Lantra

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Nodau'r hyfforddiant

- Gwella ymwybyddiaeth o'r egwyddorion sydd wrth wraidd datblygiad cynaliadwy
- Adnabod pwysau o blaid newid yn y sector Dyframaeth, ar raddfa fyd-eang ac yn lleol
- Bod yn ymwybodol o'r buddion sy'n dod o gymhwyso datblygiad cynaliadwy ar gyfer menter Dyframaeth
- Rhoi syniadaeth systemau ar waith
- Datblygu cynllun gweithredu ymarferol ar gyfer ei roi ar waith

Ffynhonnell: C.E.Lloyd
Prifysgol Abertawe

Gweithgarwch cychwynnol: beth yw ystyr datblygiad cynaliadwy?

Mae'r llun hwn yn dangos golygfa o fferm frithyllod fach yng Nghymru. Gellir gweld lluniau eraill ar y crynoddisg dan **Tryloywluniau Amgen**. Ymarfer yw hyn i'ch cael chi i ddechrau meddwl am beth y mae **datblygiad cynaliadwy** yn ei olygu i chi. Does dim atebion cywir nac anghywir, dim ond eich syniadau chi. Meddyliwch am yr agweddau cymdeithasol ac economaidd ar gynaladwyedd yn ogystal â'r rhai amgylcheddol.

Rhestrwch y pethau a welwch chi yma, a'r hyn sy'n digwydd yn eich barn chi, a phenderfynu a yw'r busnes hwn yn gynaliadwy neu beidio.

Nodiadau

Datblygiad Cynaliadwy



Mae'r diagram yn dangos bod popeth yn gweithredu o fewn terfynau. Rydym i gyd yn byw, ac mae busnesau'n gweithredu, o fewn terfynau economaidd, ond mae'r rhain yn eu tro dan gyfyngiad y fframwaith cymdeithasol a chyfreithiol sy'n bodoli yn ein cymdeithas. Mae'r ddau gylch mewnol hyn dan reolaeth a dylanwad dynol, ac yn agored felly i newid. Ond yn y pen draw, rydym ni a'n gweithgareddau ni i gyd dan gyfyngiad terfynau amgylcheddol y ddaear.

Gwnewch nodiadau ar sut mae'r terfynau hyn yn effeithio ar eich busnes chi ar hyn o bryd.

Nodiadau

Rhosyn Cwmpawd Datblygiad

Gwleidyddol

Pwy sy'n penderfynu? Cwestiynau yw'r rhain am rym; pwy sy'n dewis ac yn penderfynu beth fydd yn digwydd; pwy sydd ar ei ennill a phwy sy'n colli o ganlyniad i'r penderfyniadau hyn, a beth yw'r gost?



Amgylcheddol

Cwestiynau yw'r rhain am yr amgylchedd - ynni, awyr, dŵr, pridd, pethau byw - a'u cydberthynas â'i gilydd. Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig yn ogystal â'r amgylchedd 'naturiol'.

Cymdeithasol

Cwestiynau yw'r rhain am bobl, eu cydberthnasau, eu traddodiadau, eu diwylliant a'u ffordd o fyw. Maent yn cynnwys cwestiynau er enghraifft am sut mae rhyw, hil, anabledd, dosbarth ac oedran yn effeithio ar gydberthnasau cymdeithasol.

Economaidd

Cwestiynau yw'r rhain am arian, masnachu, cymorth, perchnogaeth, prynu a gwerthu.

Addasiad o Rosyn Cwmpawd Datblygiad Oxfam

Mae'r diagram hwn yn eich helpu i ystyried dimensiwn gwleidyddol cynaladwyedd hefyd. Cewch ychwanegu rhai o'r agweddau hyn at eich nodiadau.

Fe allwch chi ddechrau grwpio'ch syniadau bellach dan y tri phennawd: Economaidd, Cymdeithasol (sy'n cynnwys Gwleidyddol) ac Amgylcheddol. Mae hyn yn cyflwyno'r cysyniad o dair colofn cynaladwyedd, neu'r tair ffordd angenrheidiol o feddwl am gynaladwyedd.

Nodiadau

Datblygiad cynaliadwy yw...

"Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain"

Adroddiad Brundtland 1987

Ym 1987, yn Adroddiad Brundtland, a adnabyddir hefyd fel *Ein Dyfodol Cyffredin*, fe rybuddiwyd y byd am yr angen i symud ymlaen yn ddioed at sicrhau datblygiad economaidd y gellid ei gynnal heb dderbyn anghyfartaledd cymdeithasol, ddihysbyddu adnoddau naturiol na niweidio'r amgylchedd. Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd gan grŵp rhyngwladol o wleidyddion, gweision sifil ac arbenigwyr ar yr amgylchedd a datblygiad, yn gwneud y datganiad allweddol hwn ynghylch datblygiad cynaliadwy.

Pwysleisiodd yr adroddiad dair elfen sy'n sylfaen hanfodol o ddatblygiad cynaliadwy:

- amddiffyn yr amgylchedd
- twf economaidd
- cydraddoldeb cymdeithasol.

Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth y DU 2005

Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol
Parchu terfynau amgylcheddol, adnoddau a bioamrywiaeth y blaned – er mwyn gwella ein hamgylchedd a sicrhau bod yr adnoddau naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd heb eu hamharu a'u bod yn aros felly i'r cenedlaethau a ddaw.

Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Chyfiawn
Cwrdd ag anghenion amryfal yr holl bobl mewn cymunedau presennol a rhai'r dyfodol, hybu lles personol, cydlyniad a chynhwysedd cymdeithasol, a chreu cyfleoedd cyfartal i bawb.

Sefydlu Ecónomi Cynaliadwy
Adeiladu ecónomi gref, sefydlog a chynaliadwy fydd yn darparu ffyniant a chyfleoedd i bawb, a lle y bydd costau amgylcheddol a chymdeithasol yn syrthio ar ysgwyddau'r rhai sy'n eu gosod (Y Llygrwr Sy'n Talu), a lle y cymhellir y defnydd effeithiol o adnoddau.

Defnyddio Gwyddoniaeth Gall yn Gyfrifol
Sicrhau bod polisi'n cael ei ddatblygu a'i weithredu ar sail tystiolaeth wyddonol gref, tra'n cymryd i ystyriaeth ansicrwydd gwyddonol (trwy'r Egwyddor Ragocheliadol) yn ogystal ag ymagweddau a gwerthoedd y cyhoedd.

Hybu Llywodraethedd Da
Gweithio at hybu systemau llywodraethedd effeithiol, cyfranogol ar bob lefel o'r gymdeithas – ennyn a hybu creadigedd, egni ac amrywioldeb pobl.

Diogelu'r Dyfodol, 2005

Mae Strategaeth Llywodraeth y DU ar Ddatblygiad Cynaliadwy – *Securing the Future* – yn cyflwyno'r set diagramatig hwn o egwyddorion ac yn mynd ymlaen i ddatgan, *"Nod ein strategaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yw galluogi pob person ledled y byd i ddiwallu ei anghenion sylfaenol a mwynhau ansawdd bywyd gwell heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen inni i gyd – llywodraethau, busnesau, y sector cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, cymunedau a theuluoedd – wneud penderfyniadau gwahanol os ydym am wireddu'r weledigaeth o ddatblygiad cynaliadwy."*

Mae Pennod 3 o'r ddogfen yn amlinellu rôl defnyddwyr a chynhyrchwyr yn y dasg o greu cymdeithas fydd yn fwy cynaliadwy. *"Mae angen newid cyfeiriad yn sylweddol er mwyn cyflenwi cynhyrchion a gwasanaethau newydd sy'n cael effeithiau llai ar yr amgylchedd trwy gydol eu cylch bywyd, yn ogystal â modelau busnes newydd fydd yn ateb yr her hon tra'n hybu cystadleurwydd. Mae angen inni adeiladu ar sail y cynnydd yn ymwybyddiaeth pobl o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol, ac o bwysigrwydd eu rolau fel dinasyddion a defnyddwyr."*

Dechrau Byw'n Wahanol

Mae Cynllun Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datgan:

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hyrwyddo datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Golyga hyn anghenion yr holl fywyd dynol, o fewn gallu'r ecosystemau i'w cynnal, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hwy.

Ffynhonnell : Llywodraeth Cynulliad Cymru

Dechrau Byw'n Wahanol

Cynllun Datblygiad Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ADRAN 1: Y DYLETSWYDD

Mae dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i hybu datblygiad cynaliadwy wrth ymarfer ei swyddogaethau, hynny yw, ym mhob peth a wneir ganddo.

(Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004)

http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/startlivedifferently/?lang=cy

Cynaladwyedd/Datblygiad Cynaliadwy

- Y nod yw **cynaladwyedd**, cyflwr y gallwn ni anelu ato.
- **Datblygiad cynaliadwy** yw'r broses o symud yn nes at gynaladwyedd. Mae'n ddadleuol, gan fod pobl yn anghytuno'n aml ynghylch y ffordd orau o symud ymlaen tuag ato.

Mae PP4SD wedi cael bod trafodaethau grŵp gyda sefydliadau wedi esgor ar y syniadau uchod. "Efallai na fyddwn ni byth yn cyrraedd y nod terfynol o gymdeithas hollol gynaliadwy, lle y cedwir cydbwysedd rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r defnydd a wneir ohonynt, ond mae angen inni fod yn gweithio i'r cyfeiriad hwn cyn inni gyrraedd y foment pan fydd adnoddau naturiol megis tanwyddau ffosilaidd yn dod i ben."

Ydych chi'n cytuno â'r datganiad hwn? Os nad ydych, pam?

Nodiadau

Dim ond un ddaear

Mae'r adran hon yn eich helpu i ystyried y tueddiadau datblygiadol byd-eang ar hyn o bryd ac i adnabod y rhai sy'n effeithio fwyaf ar eich busnes chi. Mae'n cyflwyno ichi ddull o gynllunio at weithredu fydd yn eich galluogi i ddechrau meddwl am yr hyn y gallwch chi ei wneud i leddfu unrhyw effeithiau negyddol, a manteisio ar unrhyw gyfleoedd y maent yn eu cyflwyno.

FINAL WARNING

According to yesterday's UN report, the world will be a much hotter place by 2100. This will be the impact...

+2.4° +3.4° +4.4° +5.4° +6.4°

The Independent
3 Chwefror 2007

As April temperatures break all records, will this be the summer when Britain reaches

40°C

and the effects of climate change are painfully brought home?

The Independent
28 Ebrill 2007

Bydd Newid Hinsawdd yn effeithio arnom i gyd, a dyna un rheswm pam y mae'n rhaid inni i gyd wneud newidiadau yn ein ffyrdd o fyw a gweithio. Darnau a gymerwyd o bapur newydd yr *Independent* yw'r rhain.

Faint o erthyglau neu storïau tebyg y gallwch chi eu darganfod ym mhapurau newyddion yr wythnos hon neu yn y newyddion?



Mae'r diagram hwn yn dangos, yn ôl y rhagfynegiadau, y bydd cynhyrchiant olew yn cyrraedd ei frig tua 2013, ac y gallai ddigwydd cyn hynny. Mae'r galw am olew yn cynyddu, ac mae technolegau newydd fyddai'n cymryd lle olew wedi cael eu mabwysiadu'n araf.

(Yn adran y **Tryloywluniau Amgen** ar y crynoddisg, fe welwch chi ddiagramau eraill yn dangos newid hinsawdd a'r heriau byd-eang eraill yr ydym yn eu hwynebu.)

Rhestrwch y ffyrdd y mae eich cwmni chi'n dibynnu ar olew.
Pa gyfran o'ch costau i gyd yw hyn?

Nodiadau



The Independent
14 Mehefin 2007

Protestiadau am danwydd yn cynyddu ledled Ewrop

Gan Chris Marsden, 12 Medi 2000

Mae ton o brotestiadau yn erbyn prisiau tanwydd uchel yn sgubo ar draws Ewrop. Mae gwrthdystiadau gan gludwyr ffordd, ffermwyr ac eraill sy'n dibynnu'n drwm ar betrol a diesel ym Mhrydain, Gwlad Belg, Yr Almaen, Yr Eidal ac Iwerddon yn dilyn chwe diwrnod pan gafodd traffyrdd, purfeydd olew, canolfannau dosbarthu a phorthladdoedd yn Ffrainc eu blocedio – gan orfodi gostyngiad yn y prisiau. Ym Mhrydain mae modurwyr yn wynebu prinder petrol wrth i chwech o naw purfa olew y wlad a phedair canolfan ddosbarthu ddod dan warchae gan yrwyr lorïau a ffermwyr. Mae cannoedd o orsafoedd petrol wedi dechrau cyfyngu ar y maint a werthir i bob cwsmer.

http://www.wsws.org/articles/2000/sep2000/oil-s12_prn.shtml

Mae'r storïau hyn o'r newyddion yn dangos i ba raddau y mae ein cymdeithas yn dibynnu ar olew, a pha mor sydyn y mae prinder olew yn gallu arwain at anhrefn.

Y defnydd o ddŵr



Ffynhonnell: UNESCO
Adnoddau dŵr y byd ar ddechrau'r 21ain ganrif

Mae'r diagram yn dangos y galw cynyddol am ddŵr ffres ledled y byd.
Rydym i gyd yn dibynnu ar lawogydd am ein dŵr.

Rhestrwch y ffyrdd y mae eich cwmni chi a'i weithwyr yn dibynnu ar gyflenwad rheolaidd o ddŵr ffres. Pa gyfran o'ch costau i gyd yw hyn? A fyddai newid ym mhatrymau'r glawogydd, naill ai gynnydd neu leihad, yn gwneud gwahaniaeth?

Nodiadau

Tueddiadau yng nghynhyrchiant dyframaethyddol y byd: prif grwpiau rhywogaethau



Ffynhonnell: The State of the World Fisheries and Aquaculture FAO 2006

Mae'r cynnydd yng nghynhyrchiant y gwahanol brif grwpiau o rywogaethau yn parhau, er bod y cynnydd a welwyd mor belled yn ystod y degawd presennol yn llai trawiadol na'r cyfraddau twf a gyrhaeddwyd yn y 1980au a'r 1990au. Yn ystod y cyfnod 2000-04 fe welwyd cynnydd cryf yn y nifer o gramenogion a gynhyrchwyd yn enwedig, a felly hefyd yn achos pysgod y môr. Mae'r cyfraddau cynnydd yng nghynhyrchiant y grwpiau eraill o rywogaethau wedi dechrau arafu, ac ni ellir cymharu'r gyfradd gynnydd gyffredinol, er ei bod yn sylweddol o hyd, â'r cynnydd arwyddocaol a welwyd yn y gyfradd gynnydd yn ystod y ddau ddegawd blaenorol. Tra ei bod yn ymddangos felly mai'r tueddiad ar gyfer y dyfodol agos yw cynnydd parhaus mewn cynhyrchiant, mae'n bosibl bod cyfradd y cynnydd yn gostegu.

http://www.fao.org/docrep/009/a0699e/A0699E04.htm

Mae'r heriau byd-eang cysylltiedig sy'n wynebu busnesau Dyframaeth o ganlyniad i'r fath Ddwysáu a maint y cynhyrchiant yn cynnwys y defnydd a wneir o ddŵr, llygredd, cymhlethdod cynyddol y gadwyn gyflenwi, mesurau i ddiogelu'r amgylchedd e.e. yng nghyswllt ansawdd dŵr.

Allwch chi feddwl am heriau eraill sy'n wynebu'r diwydiant o ganlyniad i'r cynnydd mewn cynhyrchiant?

Heriau byd-eang i'ch busnes chi

- Newid hinsawdd
- Deddfau amgylcheddol
  (e.e. Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y CE)
- Cadwyni cyflenwi cynyddol gymhleth
- Gofynion o ran olrheiniadwyedd
- Deddfau ynghylch cyflogaeth (e.e. cyflogau arisaf)
- Prisiau cynyddol adnoddau (e.e. ynni).

Allwch chi ychwanegu heriau byd-eang eraill sy'n effeithio ar eich busnes chi'n benodol? Ym mha ffyrdd y maent yn effeithio arno?

Nodiadau

Heriau lleol i gynaladwyedd eich busnes

Dyma rai esiamplau:

- Mwy o arloesi wrth ddatblygu dyframaeth
- Newidiadau yn y ddeddfwriaeth
- Rheolau ynghylch cynllunio'r defnydd o'r tir
- Amddiffyn bioamrywiaeth

Ychwanegwch eich rhai'ch hun

Mae llawer o'r deddfau a basiwyd yn ddiweddar yn effeithio ar fusnesau. Sut maent wedi effeithio ar eich busnes chi? Mae cwsmeriaid yn mynnu cael cynhyrchion a gwasanaethau sy'n fwy cynaliadwy, ac mae eco-wobrau'n cael eu cydnabod gan gyrff statudol yn ogystal â chwsmeriaid. Ydy'ch busnes chi'n ymateb gystal ag y gallai i'r cyfleoedd hyn?

Gwnewch restr o rai o'r heriau diweddar i'ch busnes, a sut rydych chi wedi ymateb iddynt. Cewch ddefnyddio'r ddalen *Heriau i Fusnesau Dyframaeth* sydd yn y poced yng nghefn y Gweithlyfr.

Nodiadau



Mae yna bethau ymarferol y gallwch chi'u gwneud i'ch helpu eich hun a'ch busnes i ddelio â'r heriau hyn. Mae'r diagram hwn yn dangos un ffordd o strwythuro'ch syniadau, ac fe ddychwelwn ni ato ar ddiwedd y Gweithlyfr fel y medrwch chi ddechrau cynllunio at weithredu yn eich busnes. Mae'r maes neu gylch yn y canol yn cynrychioli'r materion a'r problemau hynny y gallwch chi eu rheoli'n uniongyrchol, e.e. cwtogi ar y maint o ynni a ddefnyddir, neu ddefnyddio llai o ddeunydd pecynnu. Mae'r maes nesaf yn cynrychioli'r agweddau hynny y gallwch chi ddylanwadu arnynt efallai, e.e. rheoli ansawdd dŵr. Mae'r maes allanol yn cynrychioli'r pethau sy'n peri pryder ichi, ond nad oes gennych chi ddim dylanwad uniongyrchol arnynt. Pan ddechreuwch chi gynllunio at weithredu, y peth callaf yw dechrau gyda meysydd rheolaeth a dylanwad. Dyma'r rhai fydd yn cael y canlyniadau cyflymaf.

Nodiadau

Astudiaethau achos: Sut mae eraill wedi dod at ddatblygiad cynaliadwy

Darllenwch yr astudiaeth achos, sy'n disgrifio cwmni sydd mewn bodolaeth yng Nghymru

- Gwnewch grynodeb o gefndir yr astudiaeth achos.
- Beth yn eich barn chi yw'r prif agweddau ar yr astudiaeth achos sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy?
- A oes yna elfennau o arferion da y gellid eu rhannu a'u dynwared?
- Sut gellid gwneud y cwmni yn yr astudiaeth achos yn fwy cynaliadwy?
- A oes sylwadau eraill gennych chi?

Mae un astudiaeth achos ym maes Dyframaethu i'w chael yn y poced yng nghefn y Gweithlyfr. Mae **Astudiaethau Achos** eraill i'w cael ar y crynoddisg.

Dewiswch un sydd o ddiddordeb i chi, neu a fyddai'n berthnasol i'ch busnes chi, a'i dadansoddi ar sail y pwyntiau uchod.

Nodiadau

Yr Achos Busnes dros Ddatblygiad cynaliadwy

Mae'r Cam Naturiol wedi datblygu'r fframwaith hwn a gyflwynir ganddo fel un ffordd y gall arweinwyr weld 'risgiau' fel cyfleoedd newydd i lwyddo. Mae'n awgrymu y dylid defnyddio'r fframwaith i:

- Leihau costau gweithredu a risgiau amgylcheddol
- Achub y blaen ar fframweithiau rheoliadol
- Cryfhau a gwella statws sefydliad ymhlith y rhanddeiliaid
- Gwneud materion amgylcheddol yn rhan anhepgor o fywyd y gweithle
- Gwahaniaethu rhwng cynhyrchion a gwasanaethau a chreu delwedd gadarnhaol ar gyfer y brand.

www.ortns.org/framework.htm

Mae gweithredu'ch busnes yn ôl egwyddorion cynaladwyedd yn gallu dod â gwirioneddol fuddion iddo.

Allwch chi feddwl am ragor o fuddion? Meddyliwch am bethau megis eco-labelu, ail-ddefnyddio deunydd pecynnu, mynd i mewn i farchnadoedd newydd ayyb.

Nodiadau

Sbectrwm Cynaladwyedd Busnesau (ar sail syniad yr WWF)

Sefydliad Ton 1af

Gwrthodiad

- Mae'r élite yn ymdrechu i wneud yr elw mwyaf posibl ac yn trin pob adnodd fel modd o gyrraedd y diben hwnnw.
- Yn esgus hyrwyddo lechyd a Diogelwch.
- Yn gwrthwynebu'r llywodraeth ac ymgyrchwyr gwyrdd.
- Yn ystyried hawliadau'r gymuned yn ddi-sail.

Dinistrio

Diffyg ymateboldeb

- Yn fwy anwybodus na gelyniaethus.
- Yn ceisio canlyn 'busnes fel arfer', y gweithlu'n ufudd.
- Yn anwybyddu unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd.

Cyfyngu

Sefydliad 2il Don

Cydymffurfiad

- Yn canolbwyntio ar leihau'r risg o gosbau am fethu â bodloni'r safonau arisaf.
- Yn ymatebol i ofynion y gymuned a'r gyfraith.
- Yn dilyn llwybr cydymffurfiad ac yn cymryd mesurau rhagweithiol er mwyn cynnal delwedd dda yn y gymuned.

Effeithioldeb

- Yn cyflwyno polisïau dyngarol ac amgylcheddol gyda golwg ar ostwng costau a chynyddu effeithioldeb.

Cadw

Sefydliad 3edd Don

Rhagweithioldeb strategol

- Yn anelu at fod yn gyflogwr y bydd gweithwyr yn ei ddewis.
- Yn ennyn cyfranogaeth y rhanddeiliaid er mwyn arloesi gyda chynhyrchion a phrosesau sy'n ddogel ac yn ffafriol i'r amgylchedd.
- Yn cefnogi dinasyddiaeth dda er mwyn gwneud yr elw mwyaf posibl.

Cynyddu

Y gorfforaeth gynhaliol

- Yn ail-ddehongli natur y gorfforaeth fel elfen hunanadnewyddol hanfodol o'r gymdeithas gyfan yn ei gyd-destun ecolegol – ac yn anelu at adnewyddu hyn.

Creu

Ble byddech chi'n gosod eich busnes chi ar y Sbectrwm Cynaladwyedd heddiw?

Byddwch yn onest!

Ble carech chi fod?

Nodiadau

Allwch chi feddwl am un esiampl o hyn yn eich busnes chi?



Mae'r diagram hwn yn dangos cylchred naturiol cyn unrhyw gydweithiad â'r ddynol ryw. Mae'n system hunangynhaliol.



Mae'r diagram hwn yn dangos pa mor hawdd y gellir tanseilio a niweidio'r system naturiol.

Allwch chi feddwl am ffyrdd y mae'ch busnes chi'n cyfrannu at y broses hon, gan gynnwys efallai eich prosesau a/neu'ch cynhyrchion gwastraff?

Nodiadau





Dyma un ffordd o ddadansoddi'ch busnes a chymhwyso'r dynesiad syniadaeth systemau at gynllunio busnes. Nod y dynesiad hwn yw sicrhau na fydd diffyg syniadaeth gydlynol yn tanseilio'r hyn yr ydych chi'n ceisio ei gyflawni. Mae'n beth synhwyrol ichi ddadansoddi gweithgareddau busnes yn ystod y cyfnod cynllunio er mwyn osgoi methu â gweld unrhyw ganlyniadau annymunol a niweidiol.

Defnyddiwch y templed Mewnbynnau/Gweithrediadau/Allbynnau uchod i ddylunio diagram syml (yn debyg i'r esiampl o fap meddwl a ddangosir uchod) o'ch busnes. Ceisiwch gynnwys eich holl fewnbynnau, gweithrediadau ac allbynnau.

Nodiadau

Mae'r Pum Cyfalaf yn cynnig ffordd wahanol o edrych ar eich busnes. Mae'r gwahanol fathau o gyfalaf yn gyd-ddibynnol. Ar ôl darllen y testun ar y tudalennau canlynol, sy'n esbonio'r Pum Cyfalaf, cewch chi ddefnyddio'r ddalen ***Dadansoddi fy Musnes trwy Ddefnyddio'r Pum Cyfalaf*** sydd yn y poced yng nghefn y Gweithlyfr i restru'r gweithgareddau yn eich busnes sydd yn cynyddu neu'n lleihau pob un o'r Pum Cyfalaf. Fe welwch chi fwy o wybodaeth am y Pum Cyfalaf yn yr adran **Defnyddiau Ychwanegol** ar y crynoddisg ac ar www.pp4sd.org.uk.

Cyfalaf Naturiol

- **Beth mae hyn yn ei olygu?**

  yr adnoddau naturiol (ynni a mater) a'r prosesau sydd eu hangen ar fusnesau os ydynt am gynhyrchu nwyddau a darparu gwasanaethau

- **Pam mae'n bwysig?**

  bydd popeth yn tynnu rhywbeth allan o'r amgylchedd naturiol neu'n effeithio arno rywffordd neu'i gilydd

Cyfalaf Dynol

- **Beth mae hyn yn ei olygu?**

  iechyd, gwybodaeth, sgiliau, allbynnau deallusol a chymhelliant pobl, eu gallu i greu cydberthnasau a'u sgiliau cynhenid

- **Pam mae'n bwysig?**

  mae busnesau'n dibynnu ar gymhelliant a sgiliau unigolion er mwyn bod yn llwyddiannus

Cyfalaf Cymdeithasol

- **Beth mae hyn yn ei olygu?**

  y gwerth a ychwanegir at fusnes trwy gydberthnasau, partneriaethau a chydweithrediad rhwng pobl

- **Pam mae'n bwysig?**

  mae economïau'n dibynnu ar ryngweithiadau cymdeithasol i gyflawni eu hamcanion

Cyfalaf Wedi'i Weithgynhyrchu

- **Beth mae hyn yn ei olygu?**

  y nwyddau materol a'r seilwaith sy'n cyfrannu at gynhyrchu pethau neu ddarparu gwasanaethau (offer, technoleg)

- **Pam mae'n bwysig?**

  mae'n bwysig bod y modd o ddatblygu/darparu pethau yn gynaliadwy – trwy ddefnyddio dulliau arloesol

Cyfalaf Ariannol

- **Beth mae hyn yn ei olygu?**

  gwerth cynhyrchiol y mathau eraill o gyfalaf sy'n bodoli mewn ffurf y gellir ei meddiannu neu ei masnachu

- **Pam mae'n bwysig?**

  dyma'r ffordd draddodiadol a phennaf o fesur perfformiad busnes



Nawr dylech chi ychwanegu pob un o'r Pum Cyfalaf at y pwyntiau perthnasol ar y map meddwl o'ch busnes. Defnyddiwch yr esiampl uchod i'ch helpu os oes angen.



Defnyddiwch y ddalen *Cynllunio at Weithredu* i ddechrau meddwl am yr hyn y gallwch chi ei reoli a dechrau ei wneud felly ar unwaith. Cewch chi ddechrau meddwl ymlaen hefyd yn nhermau ble carech chi fod mewn pum mlynedd. Ceisiwch ymgorffori unrhyw godiadau a gostyngiadau perthnasol yn eich Pum Cyfalaf yn hyn. Efallai y carech chi gyfeirio yn ôl at yr esboniad cynharach o'r diagram hwn.

Nawr eich bod chi wedi dod i ben y Gweithlyfr, a ydych chi'n teimlo eich bod yn fwy abl i

- Amgyffred yr egwyddorion sydd wrth wraidd datblygiad cynaliadwy
- Esbonio'r egwyddorion hyn i'ch staff ac eraill
- Adnabod y gwahanol bwysau dros newid a'r heriau y maent yn rhoi ger bron y sector Rheolaeth Amgylcheddol
- Adnabod y buddion sy'n dod o gymhwyso egwyddorion datblygiad cynaliadwy at fenter ym maes Rheolaeth Amgylcheddol
- Cymhwyso syniadaeth systemau at eich cynllunio busnes
- Datblygu cynllun gweithredu ymarferol i'w roi mewn grym?

Os na fedrwch chi ateb 'ydw' i bob un o'r cwestiynau hyn, beth am fynd yn ôl at y darn(au) perthnasol o'r Gweithlyfr a rhoi'ch meddwl ar waith! Efallai y bydd yn ddefnyddiol hefyd os llenwch chi'r ffurflen ***Gwerthusiad*** sydd yn y poced yng nghefn y Gweithlyfr.

Sut mae'n dod ymlaen?

- Erbyn hyn fe allwch chi restru rhai o'r pethau cynaliadwy yr ydych chi'n eu gwneud yn barod, efallai heb sylweddoli
- Curwch eich cefn eich hun!
- A pheidiwch anghofio sôn am y pethau cynaliadwy hyn wrth hysbysebu a marchnata

Nodiadau

Nodiadau

Nodiadau

Diolchiadau

Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Cymdeithas Brithyllod Prydain
Coleg Sir Gâr
Dominic Woolf
Tîm PP4SD Prifysgol Abertawe:
(Christine Lloyd, Jan Morgan, Yvonne Jones)
PP4SD y DU:
(Glenn Strachan, Jimmy Brannigan, John Baines)
James Wilson
Jane Claricoates Prifysgol Abertawe
Lantra
Coleg Sir Benfro
Shirley a Malcolm Bexon

Rhestr wirio adnoddau

- **Wyth Egwyddor Cynaladwyedd**
- **Heriau i Fusnesau Dyframaeth**
- **Astudiaeth Achos**
- **Crynodeb o'r Pum Cyfalaf**
- **Dadansoddi fy Musnes i gan ddefnyddio'r Pum Cyfalaf**
- **Cynllunio at Weithredu**
- **Dalen werthuso**

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r cyflwyniad hunangymorth hwn i gynllunio busnes, sydd â'r nod o'ch helpu i feddwl am ymgorffori egwyddorion cynaladwyedd yn eich gweithgareddau busnes o ddydd i ddydd – ac i weld unrhyw esiamplau lle rydych chi wedi gwneud hyn yn barod!

Os carech chi roi mwy o ystyriaeth i sut gellir cymhwyso'r dull gweithredu hwn at eich busnes, trwy ofyn am ymweliad er enghraifft neu drwy gymryd rhan mewn diwrnod o hyfforddiant wedi'i hwyluso a chyfnewid syniadau gyda busnesau bach eraill, bydd tîm PP4SD Prifysgol Abertawe'n falch o glywed oddi wrthych chi.

I gael mwy o fanylion galwch:

Tîm PP4SD Prifysgol Abertawe
+ 44 (0)1792 602655 / + 44 (0)1792 602029

neu anfonwch e-bost at:
pp4sdinfo@swansea.ac.uk

neu ysgrifennwch i:
Tîm PP4SD
Adeilad Margam
Ysgol yr Amgylchedd a'r Gymdeithas
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
ABERTAWE
SA2 8PP
Cymru
Y Deyrnas Unedig

Mae gweithlyfrau datblygiad cynaliadwy ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer busnesau yn y sectorau canlynol:

Gweithgynhyrchu Amaethyddol

Dyframaethu

Rheolaeth Amgylcheddol

Rheolaeth Pysgodfeydd

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm PP4SD
Prifysgol Abertawe
Adeilad Margam
Parc Singleton
Abertawe SA2 8PP

e-bost: pp4sdinfo@swansea.ac.uk

ffôn: +44(0)1792 602655

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Lantra

ISBN 0-86076-192-4